# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, Llinos Medi Huws, R.Meirion Jones a Bryan Owen. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol a Thrawsnewid,<br>Uwch Swyddog Adnoddau Dynol (DJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Dim |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr, 2019.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 APWYNTIO STAFF**

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol – Dros Dro**

Cyflwynodd y Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol a Thrawsnewid adroddiad llafar mewn perthynas â'r swydd uchod.

Adroddwyd fod penderfyniad wedi ei wneud yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd ar 11 Ionawr, 2019 i wahodd mynegiadau o ddiddordeb yn swydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro gan Benaethiaid Gwasanaeth ac aelodau o'r uwch Dîm Arweinyddiaeth. Derbyniwyd dau fynegiant o ddiddordeb a chynhaliwyd cyfweliadau gan Banel yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau, Deilydd Portffolio (Gwasanaethau Cymdeithasol), y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol a Thrawsnewid.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD :-**

- **Penodi Mr Alwyn Rhys Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, i swydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol – Dros Dro ac i roi taliad honoraria ychwanegol iddo am ymgymryd â'r swydd a'r cyfrifoldebau;**
- **Penodi Mr Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant i swydd y Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol – Dros Dro ac i roi taliad honoraria ychwanegol iddo am ymgymryd â'r swydd a'r cyfrifoldebau;**
- **Cynnal cyfarfod pellach o'r Pwyllgor Penodiadau i drafod materion ynghylch swydd wag y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes).**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**